# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**2015 dccc 3**

*Cynghorydd Cenedlaethol*

## 20 Cynghorydd Cenedlaethol

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person fel Cynghorydd Cenedlaethol.

(2) Mae'r person a benodir yn Gynghorydd Cenedlaethol yn dal ei swydd yn unol â thelerau'r penodiad.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru dalu treuliau, tâl cydnabyddiaeth a lwfansau mewn cysylltiad â'r Cynghorydd Gweinidogol.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru dalu—

(a) pensiynau mewn cysylltiad â phersonau a fu'n Gynghorydd Gweinidogol, a

(b) symiau ar gyfer darparu pensiynau neu tuag at ddarparu pensiynau mewn cysylltiad â phersonau a fu'n Gynghorydd Gweinidogol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu i'r Cynghorydd Gweinidogol—

(a) y cyfryw staff, a

(b) y cyfryw adeiladau, cyfarpar a chyfleusterau eraill,

ag y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer arfer swyddogaethau'r Cynghorydd Cenedlaethol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 mewn grym ar 29.6.2015, gweler **a. 25(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 29/06/2015.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, Adran 20.